8168

HUNAN YMDDIDDAN Y CRISTION A'I ENAID,

YN EI FYNUDAU DIWEDDAF.

ENAID byw o nefol dân,
Gâd, O gâd y corph yn lân!
Crynu, chwènych, oedi 'r ydyw'!
O mor chwerw a melus marw!
Mwy na chroesa 'w'llys Duw,
Ond gâd im' farw o'r byd gael byw.

Pwy sy'n siarad! Angel lef,
"Chwaer anwyla' tyr'd i'r nef;"
Beth a'm llwngc i fynu oll?
Mae'm synhwyrau i gyd ar goll,
A'r anadliad bach yn dyn:
O f' enaid, d'wed, ai angau yw hyn?

Draw'r byd o'th ôl—diflana 'n lân;
Gwêl byrth y nef ar lled o'th fla'n,
Clyw gân angylaidd gôr;
Adenydd rhowch, 'rwi'n gado'r llawr;
Ble, fedd, mae'th fuddugoliaeth 'nawr?
Ac angau'th golyn o'r?

X205 28 2861